YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 7.] GORFFENAF, 1922. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.
JOHN DAFIS, ALLTYPLACA.
ATGOFION AM TALGARREG.
CYMANFA CAERFYRDDIN.
CLAP A CHELWYDD.
BRASLUNIAU O WERSI, &c.
YN NES, FY NUW, I TI.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR • YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

CHANNING HOUSE SCHOOL.

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Boarding and Day School for Girls.

Healthy situation at the top of Highgate Hill. Large Grounds. Work on Modern Public School Lines. Preparation for London University Matriculation.

Apply for Boarding or Day Prospectus to—

Miss ALICE HAIGH, M.A., Head Mistress.

AUTUMN TERM begins SEPT. 19th.

THE STAFF.

Head Mistress—

Miss ALICE HAIGH, M.A. (Manchester).

Resident Mistresses—

Miss A. M. DANIEL, B.A. (Lond.), Honours in History; Teachers' Diploma.
Miss H. K. FRY, B.A. (Lond.), Honours in French.
Miss G. HARKER (Girton), Natural Science Tripos.
Miss M. JAMES, Higher Froebel Certificate.
Miss C. JEPSON, L.R.A.M., A.R.C.M. Miss F. JONES, B.Sc. (Lond.).
Miss D. H. LETTS (Cantab), M.A. (T.C.D.) *(Non-Resident).*
Miss B. MACLAREN, B.A. (Lond.), Honours in Classics.
Miss A. SUTHERLAND, B.A. (University of Wales), Honours in English.
Miss M. TENCH, Bedford Physical Training College.
Miss E. L. WILLIAMS, B.A. (Manchester), Honours in History, Certificate of Social Science, London School of Economics.

Visiting Mistresses—

Miss ADAMSON (Elocution). Miss A. F. BRETTELL (Elocution).
Miss W. GOODING, L.R.A.M. Miss A. GOODWIN, Member of the R.D.S.
Miss HARE (Dancing). Miss M. HOPE, L.R.A.M., A.G.S.M.
Miss I. THOMPSON, L.R.A.M., A.R.A.M. (Singing).

Matron—Miss MAUD MORSON. *Under Matron*—Miss E. JACKSON.

Number of pupils, about 140.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

" *Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] GORFFENAF, 1922. [CYF. XXII. RHIF 7.

AR ADEN FFYDD.

GWRONIAID FFYDD.

Bu farw'r *cenhadwr*
Cyn dod yn waredwr
Y pagan a garai mor fawr ;
Dymuniad ei galon,
A'i swynol freuddwydion,
A chwalwyd fel mân us y llawr.

Fe gladdwyd y *proffwyd*,
A'i gannwyll ddiffoddwyd,
Cyn claddu tywyllwch y byd ;
Fe'i rhoddwyd i huno,
Cyn gweled yn gwawrio
Y bore ddisgwyliodd gyhyd.

Fe gwympodd y *milwr*,
Cyn bod yn orchfygwr,
Yn angerdd ei boenau a'i gur ;
A chrechwen gelynion
Drywanodd ei galon
Yn fwy na phicellau o ddur.

Ha ! dirion wroniaid !
Os cauodd eich llygaid
Ar fyd o drueni a braw,
Mae grym addewidion
Tu ol i'ch " breuddwydion,"
A llwyr fuddugoliaeth gerllaw.

J. J., DREFNEWYDD.

JOHN DAFIS, ALLTYPLACA.

Teyrnged Edmygydd.

Y MAE bardd Seisnig wedi canu i'r perwyl fod dynion yn byw yn nerth edmygedd, gobaith, a chariad; a phe na buasai gwirionedd yng ngosodiad Wordsworth ni fuasai llinell o ryddiaith na barddoniaeth wedi ei hysgrifennu erioed ar ddim na neb. Hyn sydd yn fy nghymell, er yn ddinôd yng nghylchoedd llenorion, i geisio rhoddi wrth eu gilydd ychydig eiriau er cof am y diweddar John Dafis, Alltyplaca.

Ni chefais i, fel llawer, y fraint o dyfu dan ei weinidogaeth feithrinol, na byw dan ei chysgod clyd; ond bum yn ddigon agos ato i deimlo rhyw gymaint o ddylanwad ei fywyd urddasol ac anrhydeddus. Bum mor ffortunus a chael fy ngeni a'm magu tufewn i'r "Ysmotyn Du," a chofiaf yn dda y tro cyntaf i mi ei weled a'i glywed yn cyhoeddi efengyl Iesu Grist. Yr oedd hynny ym mhwlpud hen gapel Caeronen. Plentyn oeddwn, ond, er hynny, yn mynychu y sêt fawr—nid fel diacon parchus, eithr yn debycach i ddyferyn o "arian byw." Ambell Sul cawswn addewid o geiniogau gan wraig garedig *am fod yn llonydd;* ond y boreu hwnnw nid oedd angen hud y geiniog i'm tawelu. Yr oedd rhywbeth yn llais y pregethwr dieithr yn wahanol i'r mwyafrif o bregethwyr glywswn i; a hawdd oedd bod yn ddistaw a gwrando. Nid oeddwn yn deall fawr ddim o'r hyn lefarai; ond yr oedd fel petasai yn canu ei bregeth; a'r gân oedd yn swyno fy amgyffred plentynaidd.

Oherwydd rhyw reswm neu gilydd ni chafodd yr "hwyl" Gymreig fawr o roesaw erioed ym mhwlpudau Undodaidd Ceredigion, ac i'm tyb i y mae hynny wedi bod yn golled.

Pe buasai'r tadau wedi canu eu hefengyl dichon y byddai ei dylanwad wedi cerdded ymhellach na'r ffiniau presennol—heibio Llangeitho o bosibl. Yr oedd yr "hên Alltyplaca" yn eithriad i'w frodyr yn hyn. Canai ei efengyl i galonnau ei wrandawyr, ac yn hyn y ceir un o gyfrinachau ei lwyddiant fel pregethwr. Yr oedd yr "hwyl" yn hollol naturiol iddo ef; a'r "ddawn" o'i hymarfer wedi cyrhaedd perffeithrwydd ymron.

Clywsom lawer gwr galluog yn cyhoeddi'r gwirionedd; ond nid oedd yn "mynd adre" rywsut. "Gwan bach" oedd y cwrdd fel y dywedir. I bregethwr y mae ffordd ddawnus o drosglwyddo y gwirionedd mor angenrheidiol a gallu i'w ganfod. Ond o'r tu ol i lais melodaidd yr "hên Alltyplaca" yr oedd enaid mawr a phersonoliaeth mewn cymundeb a sylweddau ysprydol. Nid oedd y llais ond cyfrwng rhywbeth mwy. Wrth yr orsedd, ac nid yn y pwlpud nac ar y llwyfan y deuai ei wir fawredd i'r golwg. Cofiaf fi, a channoedd

ereill am dano, nid fel pregethwr mawr, ond fel gweddiwr, fel un a'n dygodd dro ar ol tro yn ein hanes, i gymundeb agosach a'r Presenoldeb Dwyfol.

Ar ddydd y Gymanfa pwy fel efe ymysg y brodyr i arwain cynulleidfa i uchelfannau ffydd a gobaith.

Ar lan y bedd yn y fynwent oer pwy fel efe i'n cysuro!

"Mae gweddiau hen weddiwyr
Fel angylion yn y gwynt,
Pwy a ŵyr sawl bendith heddyw
Sydd yn dod o'r amser gynt."

Tra yn y Coleg bum yn gwasanaethu unwaith yn ei gylch; ac yr oedd yr hen batriarch yn un o'r gwrandawyr; ac wrth gerdded y *round* yn ei bwysau ef, dywedodd wrthyf; "mi fydda i yn gwneud mwy o sylw o weddi dyn ifanc nac o'i bregeth." Ar unwaith gwelais bethau mewn goleuni arall. Deallais fod y wir bregeth bob amser yn tyfu allan o brofiad o gymundeb a Thad yr ysprydoedd. Ac onid yn hyn y mae i ni edrych am esboniad ar weinidogaeth effeithiol a dylanwadol ein blaenor ymadawedig? Onid hon yw gwers fawr ei fywyd i ni sydd ar ol?

Yr oedd yn edmygwr mawr o James Freeman Clarke, a chynghorai fi i ddarllen ei lyfr enwog, "*Orthodoxy: its Truths and Errors*," a gallaswn dybio fod ei ddiwinyddiaeth wedi ei lliwio i raddau helaeth gan y gwaith clodfawr hwn.

Ond *Text Book* mawr ei fywyd oedd y Beibl. Yr oedd pethau goreu "llyfr y llyfrau" ar ei gôf, ac yr oedd yn syndod y modd y medrai eu galw at wasanaeth ei ysprydefosiynol. Yr oedd ei barch i'w Feibl yn codi, nid oddiar grediniaeth ddall, ond oddiar astudiaeth oleuedig ohono; ac oddiar werthfawrogiad o'i gynnwys fel cronicl o'r profiad crefyddol yn ymddatblygu ac yn ymloywi mewn sant ar ol sant, gweledydd ar ol gweledydd, a phroffwyd ar ol proffwyd, hyd nes cyrhaedd ei ogoniant a'i berffeithrwydd yng Nghrist Iesu. Yr oeddem ni yng Ngholeg Caerfyrddin yn *higher critics* i gyd; ac yn gwybod y cwbl wrth gwrs am bopeth tu yma i'r sêr a thuhwnt; ond mynych y bu arnaf ofn wrth gyfarfod a John Dafis, Alltyplaca y gofynnai gwestiwn syml i mi o'r Beibl, a minnau yn methu ateb, canys y mae yn wybyddus heddyw nad oes raid i bob beirniad beth bynag ddarllen yr hyn y mae yn feirniadu.

Byr oedd ei amynedd at yr *iconoclasts*, ac amheuai allu Duw i fendithio pob pregeth draddodid o'r pwlpud Undodaidd. Yr oedd rhai ohonom ni y pregethwyr ifenc yn teimlo weithiau, efallai, ei fod dipyn yn gul ac yn llym yn hyn. Ond pwysleisiai ef wedd gadarnhaol Undodiaeth, tra yr oeddem ni a'n holl fryd ar ddinystrio'r traddodiadau, ar draul esgeuluso'r gwaith o "adeiladu yn yr Arglwydd."

Medrai ef bregethu Undodiaeth heb chwerwi na pheri tramgwydd i un enwad Cristionogol. Gwnelai hyn yn bwngc myfyrdod, nid oherwydd ofn, neu lwfrdra, neu ddiffyg argyhoeddiad o seiliau'r ffydd

Undodaidd, ond am y credai y dylid llefaru'r gwirionedd yn yspryd cariad. Y mae Undodiaeth Ceredigion wedi rhoddi magwraeth i ysgolheigion gwych, i feirdd a llenorion o fri cenedlaethol, i ddiwynyddion ac athronyddion uchel yn y prif-ysgolion ; ond ni chododd ar ei bron un plentyn sydd yn fwy o addurn iddi na John Dafis, Alltyplaca.

Bendithiwyd ef a hir ddyddiau, ac er iddo gael y fraint o weled cynhauaf teg ar lawer maes a wrteithiodd, credaf mai'r cenedlaethau sydd eto i ddod fydd yn canfod gogoniant ei waith, ac yn medi ar y tiroedd a hauodd efe mor ddiwyd ac mor drwyadl.

" Erys, er i'r gweithiwr farw
Ei lafurwaith ef ;
Son am dano mae pob erw
Is y nef."

D. Cellan Evans,

Northampton.

ATGOFION AM TALGARREG.

(Parhad.)

Yr Ysgol.—Tymhor hapus anarferol oedd yr amser dreuliwyd yn Ysgoldy Talgarreg yn wyneb y mân anhawsderau a gyfodent o bryd i bryd. Hawdd i'w trafod oedd y plant annwyl, a chefais arwyddion ar ol ymadael o'u teimladau da ac o rai argraffiadau dyfnion a wnawd yr adeg honno, ac o'r symbyliadau tuagat bethau gwell ac uwch mewn addysg, moes a chrefydd. Dipyn yn annoeth, feallai, fyddai enwi rhai o'r ysgolheigion, ac eto mae'n demtasiwn gref.

Yn mhlith y bechgyn yr oedd Evan Evans, Ffactri ; William Jones, Mount Hill (Amerig ar ol hyn) ; Rees a David Lloyd, Moelifor ; Jenkin a Daniel Jones, Waenfadfa ; David Evans, Fferm y Plas (Caerdydd yn awr) ; David Jones, Rhandir ; Tom Davies, Ciugyreryr Isa ; James Jones, Pwllybladur, Llawrcwrt (yr hwn a fu farw yn ei ieuengctid) ; Daniel Davies, Esger ; Penry Lewis, Woodlands, a Tom Jacob Thomas, Sarnicol, o'r un âch deuluaidd a fy hunan. Wedi enwi bechgyn fel hyn nid peth canmoladwy fyddai gadael allan y merched yn yr oes oleu hon y lle y ceisiant hawlfraint i lanw pob swydd, dilyn pob galwedigaeth, ymaelodiad yn mhob Ty (Cyffredin ac Arglwyddi) ac yn wir, nid oeddent yn ol yn eu cyrhaeddiadau a'u gafael meddyliol yn yr ysgol yr amser gynt.

Cofiaf yn dda am Sarah Thomas, Fadfa ; Ellen Herbert, y Siop ; Eliza, Magdalen a Margaret Davies, Ciugyreryr ; Magdalen Jones, Henbant ; S. Davies, Pantswllt ; Ann Davies, Esger ; S. Lloyd, Moelifor ; Sarah Hopkins, Plas ; Margaret Davies,

Castell Howell. Gwn fod rhai o'r cyfryw wedi ymbriodi ac yn ddylanwad er daioni yn y Rhondda, Abertawe, a lleoedd felly.

Cynhaliwyd rhai cyngherddau eisteddfodol ar raddfa fechan, a mwynhawyd hwy yn fawr, a'r teimlad o hyd oedd "melus, moes mwy."

Derbyniwyd ambell i ymweliad, ond gan fod Talgarreg yn mhell ar gyffiniau y dosbarth nid mor aml a'r ysgolion canolog. Daeth Esgob Lloyd, Bangor (nid oedd yn Esgob y pryd hynny) droion, a phob tro yn hynod garedig a chalonogol, pan y dylifwyd i'w glustiau unrhyw gwynion a fyddai yn ein poeni ar y pryd.

Mae yna lyfryn dyddorol wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, sef, "Conversations of Padan Aram," a sonir am hen ysgolfeistr, Dominie Paterson, yr hwn wrth gynffon ei enw a osodasai bob amser P.A. Tipyn o gamp fyddai i rywrai ymdrechu ar ddamcaniaeth gywir o'r hyn gyfleuid gan y llythyrenau. Wel, eu hystyr yw "Padan Aram," ac os goddefir i mi ddweyd nid difalch fyddwn heddyw i osod ar ol fy enw, Y.T., fel y gall fy olynydd ffyddlon, diwyd a galluog wneud, sef, Mr. Rees Davies, Y.T. (Ysgolfeistr Talgarreg). Cefnais ar yr ysgol i apwyntiad arall gyda theimladau hiraethus ond a chofion cynhes o'r caredigrwydd digymar a ddangoswyd i mi gan yr ardalwyr oll, ac nid llai gan fy nghydweithwyr yn yr ysgol, sef, Mr. David Price, Synod Inn; Mr. James Jones, a Miss Thomas, ond cyn hir Mrs. T. Thomas (athrawes y gwnio).

Yr Eglwysi.——Ymaelodais yn eglwys y Bedyddwyr, Brynhafod, lle yr oedd y Parch. Evan Phillips, Cwrtnewydd, yn weinidog. Deadell fechan oedd hon, a dymunol oedd cael aelod newydd i'w plith. Ar lawer cyfrif yr oedd yna weddeidddra rhyfedd paham y dylaswn daflu fy holl egni i'w cynorthwyo. Onid yma y claddwyd fy nhadcu "Llanwenog," fel y galwyd ef genyf, ac onid i Ysgol Sul a gwasanaeth Brynhafod y cerddodd ganwaith, do, filwaith o Gwrtnewydd, i fagu a llwyddo yr achos ieuangc a gwan. Mae ei ddyddiadur yn dwyn tystiolaeth i hyn. Evan "Clerk" oedd yr enw wrth yr hwn yr adnabyddid ef yn yr ardaloedd lle y trafaeliodd lawer i gasglu dyledion pryniadau yn yr arwerthiadau. Llawer un a ddywedodd wrthyf nad oedd byth yn gas wrth y rhai a orfodid i gyffesu nad oedd modd ganddynt y pryd hynny, ond gobeithid cyflawni y tro nesaf y byddai yn galw. Yr oedd ganddo gryn allu i ddynwared y ceiliog, a hyn oedd yr arwydd pan yn neshau at unrhyw dŷ.

Tipyn yn faith oedd y pellder rhwng Talgarreg a Brynhafod, ond i'r ucheldiroedd oedd y cyfeiriad, a chyflwynid iechyd corfforol ar hyd y daith, a iechyd ysbrydol ar ei phen, pan yn ymuno gyda rhai o'r unrhyw ffydd mewn salm ac emyn, gweddi a chyfraniad, a derbyniad o'r bregeth ac o ddarlleniad Gair Duw. Cymerais ran yn y "Pwnc" a "Chymanfa Ysgolion" rai troion, a gwnes yr hyn oedd yn fy ngallu i osod yr ysgol mor uchel ei chlod ag oedd bosibl. Derbyniais garedigrwydd tuhwnt gan y teuluoedd anwyl a gyrchent yno (nid Bedyddwyr mo honynt i gyd, cofier), ond yn neillduol felly gan y brawd John Davies, Clynyrychain, a'r brodyr Evan a Jenkin Davies, Blaenau Gwenog. Gellid enwi ereill ond y mae rhaid ymatal. Mae yn dda gennyf mai y Parch. Glyn Edwards yw olynydd Evan Phillips, a'i fod mor uchel ei barch gan bob enwad. Dyn caredig oedd Mr. Phillips, o gryn ddawn, ond yr hwyl weithiau yn *artificial.*

Ar dywydd gerwin ag ystormus boddlonid myned i gapeli y cylch. Llawer gwaith y cyrchais i'r Fadfa lle y pregethai yr anwyl William James, B.A., Llandyssul, a byddid yn siwr o gael rhywbeth gwerth i'w gofio ac i yrru dyn i feddwl, ac er calondid a symbyliad yn wyneb anfanteision y byd a'i fasnach, gelynion yn mhlith dynion a phwerau y fagddu ac anwybodaeth. Yr oedd yn arferiad o eiddo Mr. James pan

yn hysbysu fy enw wrth gyfaill nad adwaenem i ddweyd, "Un o honom ni yw Mr. S." Gofidus oeddwn pan glywid fod y gwr hwn—gwir fawr, er yn llawn symledd—wedi ei dorri i lawr, er fod ei "haul ar ganol dydd."

Brydiau ereill i Pisgah y buaswn yn myned. Tybiaf fod y Parch. R. Thomas, Penrhiwgaled, wedi marw ychydig cyn fy nyfodiad, neu yn fuan ar ol hyny, canys "supplies" oedd i'w clywed, ac un o'r rhai hyn a brisid yn fawr gan yr eglwys oedd Mr. Morgan Evans, Dderwengam, gwr coeth a doeth, a phregethwr cymeradwy. Preswyliaf heddyw mewn ardal sydd yn nes o lawer na hir gyrhaeddiad "Big Bertha" i'r dref lle y derbyniodd hwn ei addysg foreol, canys yn Frome ba mewn ysgol—chwe' milldir o Westbury.

Yn fuan sefydlodd y Parch. T. R. Davies, o Goleg y Bala, yn Pisgah. Siaradwr rhwydd a llithrig oedd Mr. Davies, ac yn ddiamheu pan ymunodd a'r Eglwys Sefydledig—heddyw yn un o'r Eglwysi Rhyddion—cymerodd ei le yn uchel ac amlwg ymhlith clerigwyr am rwyddineb ei arabedd. Cefais unwaith yn Pisgah esiampl o lenladrad beiddgar a chywilyddus. Pregethwyd pregeth rhagorol a tharawiadol ar y geiriau, "Pwy welaf o Edom," &c, gan fod yna dri swn yn y testun—swn syndod, swn rhyfel, a swn buddugoliaeth. Pan y galwodd y pregethwr heibio i mi ar y Llun canmolais ef yn fawr am ei bregeth odidog, ac ymfalchiai yn y gymeradwyaeth. Ychydig ar ol hyn gofynodd fy nhadcu oedd wedi derbyn cyfrol o bregethau Dr. Roberts, Wrecsam, oddiwrth ei fab, y diweddar Broffeswr W. T. Samuel, Caerdydd, ar ei ben blwydd, am i mi ddarllen rhai o honynt iddo. Edrychais yn gyntaf ar y mynegair a gwelais fod pregeth ar y testun uchod, ac fel y darllenwn yn mlaen gwelais mai hon oedd y bregeth a glywais yn Pisgah. Anaml, feallai, y gwneir gweithred fel hon, sef cymryd y bregeth yn gyfangwbl heb unrhyw gyfeiriad at ei awdur, neu ffynonnell y sylwadadau a wnawd.

Ymwelwn weithiau hefyd a'r Eglwys Sefydledig a gyfarfyddai y pryd hwnnw yn "Coach House" y Fferm. Nid oedd yr Eglwys bresennol wedi ei chychwyn, ond nid testun anŵyddorol fyddai y lle y cyfarfyddem i un fel Christmas Evans pan yn son am gerbyd Efengyl. Ychydig oedd rhif aelodau ac eraill fynychai ei gwasanaeth, ond pregethai Mr. Hopkins gyda gryn nerth a dylanwad, ac yr oedd yn dda genyf glywed ei fod wedi ei drosglwyddo i fywoliaeth well yn fuan ar ol fy ymadawiad.

CYMANFA CAERFYRDDIN.

Bore Llun, y 12fed o Fehefin, fe arweiniai pob ffordd, i oddeutu o ddeuddeg i bymtheg cant—dywed rhai dwy fil, a mwy na hynny—o Undodiaid Ceredigion a Morganwg, tua'r Tabernacl, addoldy eang a phrydferth y Bedyddwyr—un o'u haddoldai—yn nhref henafol Caerfyrddin. Bore dydd y Gymanfa Ganu ydoedd. Torrodd y wawr—ac i lawer o honom, profiad anarferol oedd gweld y wawr yn torri—gydag arwyddion gobeithiol am ddiwrnod ffafriol; ac fel yr elai'r dydd ymlaen, gwelid fwy-fwy amlwg fod ein gobeithion i gael eu sylweddoli. Cawd diwrnod braf o'r cychwyniad yn y bore hyd y dych-

weliad yn yr hwyr. Yn addoldy'r Annibynwyr yn Heol Awst y bwriedid cynnal y Gymanfa—capel eang, ac addas iawn i gynnal Cymanfa ynddo ; ond am reswm neilltuol—y methiant i gwblhau gosod i fyny *organ* newydd — bu raid troi am nodded at gynnulleidfa'r Tabernacl ; a chyda'u parodrwydd arferol, rhoisant eu capel at ein gwasanaeth. Dwedaf "parodrwydd arferol" am y rheswm i'r Gymanfa fod yno unwaith o'r blaen—pedair blynedd ar bymtheg i'r flwyddyn bresennol. A di-angen dweyd y gwerthfawrogem yn fawr eu hysbryd rhyddfrydig. Gyda llaw, ni ellid disgwyl dim yn wahanol i hyn oddiwrth gynnulleidfa Fedyddiol ; oblegid er cychwyniad cyntaf yr enwad Bedyddiol, fe'i nodweddir gan aiddgarwch rhyfeddol yn y brwydrau dros ryddid gwladol a chrefyddol. Y mae llawer o ddwfr wedi rhedeg dan bont y Tywi er yr adeg uchod—1903 ; ac yn y cyfamser y mae cenhedlaeth newydd wedi codi i fyny i lanw lle'r genhedlaeth—rhan fawr o'r genhedlaeth—oedd ymlaenllaw gyda'r gân y pryd hynny. Pa nifer, tybed, o'r rhai oedd bresennol yn y Gymanfa gyntaf oedd bresennol hefyd yn yr ail—yn y Tabernacl? Diau fod llawer ; ond sicr ydyw, hefyd, fod llawer o'r rhai oedd bresennol yn y cyntaf wedi cefnu ar bopeth daearol cyn yr ail. Delai enwau llawer o honynt i'm cof wrth sylwi o honof ar y gynnulleidfa anferth oddiar y llwyfan yng nghyfarfod y bore. Ond os oedd llawer o'r hen wynebau yn eisiau, yr oedd yno luoedd o wynebau eraill hollol newydd i mi—plant a phobl ieuainc (yn ferched ac yn fechgyn) a sirioldeb ieuenctid yn prydferthu eu hwynebau. "Un genhedlaeth a ä ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw" i lanw ei lle. Ag ystyried pellter y ffordd rhwng cartrefleoedd y gynnulleidfa a Chaerfyrddin, dechreuwyd gwasanaeth y bore'n dda iawn o brydlon ; a chyda bod y rhan ddefosiynol drosodd, ymaflodd yr arweinydd (Mr. Hopkin Evans) yn ddioedi yn ei waith. Cyfarfod y plant oedd cyfarfod y bore—er nad oedd nifer y plant yn lluosog ; nid syndod hyn pan ystyriem bellter y ffordd. Felly, tonau'r plant, gan y mwyaf, ganwyd. Y cyntaf oedd "Canu'r Plant"—y cyntaf ar y rhaglen. Rhagflaenwyd canu'r dôn hon gan adroddiad hynod o effeithiol o'r emyn gan eneth o gymdogaeth Bwlchyfadfa ; yn anffodus, nid yw ei henw'n wybyddus imi. Fel adroddraig, y mae dyfodol disglaer o'i blaen—os dyfalbarha. Dymunol iawn fyddai pe trefnid i'r plant adrodd yr oll o'r emynau ; gwnawd hyn unwaith neu ddwy, ond rhoddwyd yr arferiad i fyny. Fel cyfrwng o addysg grefyddol i'r dô ieuanc, anodd iawn curo'r emyn — yn enwedig os yn emyn da. O donau'r plant, canwyd "Arosfa" amryw weithiau yn ystod y dydd. Naturiol iawn ydoedd i hon fod yn ffafr-dôn i'r arweinydd ; pwy sydd na châr ei blentyn ei hun? Ond amlwg ydoedd fod y cerddorion o'r unfarn. O leiaf, ni chawd llawer gwell datganiad yn ystod y dydd. Diangen yw rhoi manylion o weithrediadau'r tri cyfarfod—pa donau ganwyd, pa donau ganwyd yn ore, ac yn y blaen. Peryglus fyddai anturio traethu barn ar y mater olaf —y tonau ganwyd yn ore—hyd yn oed pe meddwn y cymhwyster angenrheidiol ; yr hyn ni feddaf. Yr oedd rhai ffeithiau, fodd bynnag, yn amlwg—fod yr arweinydd yn hollol foddlongar ar ansawdd y canu, fod rhai o'r tonau yn fwy wrth ei fodd nag eraill, fod y datganiad o'r ddwy anthem wedi rhoi boddlonrwydd arbennig iddo. Ffaith amlwg arall oedd—fod y cerddorion, ar ol y prawf gawd o hono yn Aberaeron llynedd, wedi syrthio mewn cariad â'r arweinydd. Ai tebyg ei fod, fel arweinydd Cymanfa Ganu'r Undodiaid, eisioes yn sefydliad parhaol? Ni chlywais i ond y ganmoliaeth uchelaf o hono drwy'r dydd. Siomedigaeth fawr fu methiant y Barnwr Lloyd Morgan i gadw ei addewid i lywyddu yng nghyfarfod y bore. Fel mab i un a barchwn yn fawr

iawn, edrychwn ymlaen gyda diddordeb at ei anerchiad. Llanwyd ei le, fodd bynnag, ymhob ystyr gan y Proffeswr Moore. Drwg gennym fod cysylltiad y Proffeswr â Chymru ar derfynu. Pob llwydd a'i dilyno. Llywydd y prydnawn oedd Mr. John Hinds, A.S., a chafwyd ganddo anerchiad rhagorol iawn, llawn hyd yr ymyl o'r tân a'r hwyl Gymreig. Piti garw, er hynny, na fuasai rhywun wedi danfon copi o emynau Iolo iddo cyn diwrnod y Gymanfa. Hyd pa hyd yr anwybyddir Iolo fel emynwr Cymreig? Gyda llaw, llawenychais o weled, y dydd o'r blaen, fod drws y "Caniedydd Cynnulleidfaol" newydd wedi ei agor iddo. Fe ddaw dydd Iolo, bob yn dipyn, er gwaethaf y curo sydd arno y dyddiau hyn. Anerchiad rhagorol oedd un y Prif-athraw Evans yng nghyfarfod yr hwyr. Cydymdeimlai pawb ag ef, debygaf, pan y siaradai dros gadw drws ein llyfrau emynau yng nghauad *ond i'r gore'n unig.* Diangen dweyd gair am Mr. Howells, y cyfeilydd; pe gwnawn hynny, ni allwn ychwanegu un cyfydd at ei faintioli. Teilynga'r Pwyllgor eu llongyfarch ar eu dewisiad o emynau a thonau'n plant. A oedd eu dewisiad o'r oll o'r tonau eraill mor hapus ag y gallai fod sydd gwestiwn na feiddiaf draethu barn arno. Amser a ddengys a ddaw'r oll o honynt yn ddefnyddiol a phoblogaidd yn ein gwasanaethau Sabothol; oblegid dyna'r nôd ddylid gadw fyth mewn golwg—eu defnyddioldeb a'u haddasrwydd i gynnulleidfaoedd ysgafn ar y Saboth. Ie, amser a ddengys. Teilynga'r Pwyllgor a'r Swyddogion air o ganmoliaeth am eu llafur—yn enwedig yr Ysgrifennydd: y dyn iawn yn y lle iawn, yn ddiamheuol, yw Mr. Thomas. Diau y câ lawn dâl am ei waith yn y pleser ddyry iddo; eithr y mae llawer wedi derbyn cydnabyddiaeth am lawer llai o waith na'i eiddo ef. Fe ddaw ei adeg yntau bob yn dipyn — efallai. Talwyd diolch gwresog i gynnulleidfa'r Tabernacl am eu caredigrwydd; a danghoswyd arwydd o werthfawrogiad o fywyd gwasanaethgar y Parch. J. Davies, Alltyplaca (gynt). Beth am farn y bobl tu allan i gylch yr enwad am y Gymanfa? Meddai "Myrddinfab" yn y *Journal:* "Yr wyf wedi bod mewn amryw Gymanfaoedd Canu cyn hyn, ond dyma'r un o'r rhai goreu a fu'm erioed." Meddai Mr. Dunn Williams (nid anadnabyddus i rai o'n cynnulleidfaoedd fel beirniad canu): "Un o'r cymanfaoedd goreu y bu'm (ynddi) erioed." Felly dywedaf innau.

C. D. E.

CLAP A CHELWYDD.

Nid oes neb yn proffesu'n agored gyfeillgarwch a'r ddau frawd hyn ond y mae llu'n caru'u cwmni, a hawdd i minnau ysgrifennu pennod o'u cofiant wedi dychwelyd, ys dywedai Twm o'r Nant—

"Rol hel y wlad i votio a chodlo celwydd chwith."

Atebodd Elis Wyn, awdur y Bardd Cwsg, pan ofynwyd ei reswm tros ysgrifennu Gweledigaeth Uffern yn hytrach na Gweledigaeth y Nef ei bod yn haws am fod Uffern o'i gylch beunydd, a chredaf y medrai Milton roi'r un rheswm tros ragoriaeth ei "Wynfa Goll" ar ei "Wynfa wedi ei hadennill." Beth bynnag, o ysgwyd

llaw a'i ddau frawd hyn, o syllu'n myw eu llygaid, o weld llawer yn "pletio mîn," ac o ystyried eu cyfeillion a'u perthynasau addefaf fod yr hen Dwm yn ei Interliwd yn dywedyd y gwir :

"Rhaid i ddyn ddysgu pratio
Tynnu het a mynych fowio,
Ac edrych pa sut yr agorir cêg
A dweyd yn deg rhag eu digio."

* * * *

Nid oes angen son am achau'r ddau efaill ond y mae rhywbeth yn wenwynig hyd yn oed yn sain eu henwau. Pe chwilid y geiriaduron ceid mai ystyr clap yw siarad gwag neu gleber disail, ond hanner cyfrinachol. Yr ydych yn cael y wybodaeth megis yn gyfrinachol oddiwrth gyfaill, ac nid oes le i'w amau. Y mae "Y Nhw" neu "Y Bobol" *in the know.* Nid oes raid i Glap frathu a gwenwyno bob tro, ond chwerwach o lawer yw natur Celwydd. Gwreiddyn y gair yw *twyll.* Pwy ddydd prynais fargen. Yr oedd gennyf hanner dwsin o offer (*tools*) yn yr un, ac nid oedd angen ond un goes (*handle*). O edrych ar y fargen cofiais am eiriau Holmes—"Y mae gan bechod lu o offer, ond *celwydd* yw'r goes sydd yn ffitio'r oll, a meddyliwn mor agos yr oedd Shakespeare wedi gweld i galon y ddau frawd hyn pan ddywedodd—

"Calumny will sear virtue itself—
These shrugs, these hums, these ha's."

* * * *

Y mae pob un rywbryd neu gilydd wedi bod yn palu'r ardd, a chredaf nad oes dim yn peri mwy o drafferth i'r garddwr na'r Cwlwm Coed (*The Birdweed*). Y mae'n blodeuo'n deg a thyfu'n gryf, ond y mae'i wraidd mor fyw fel mai amhosibl bron ei ddifa. Er i chwi balu a phalu, os bydd yna hanner modfedd o'r gwreiddyn yn aros, ac ar wyneb y tir yn ddiniwed ddigon, y mae'n sicr o ail gydio a thyfu ar fyr nes troi'r ardd yn anialwch perffaith. Y mae clap a chelwydd yn perthyn i'r Cwlwm Coed. Y maent yn gwreiddio ym meddwl ardal yn ddiarwybod. Hwyrach ar y cyntaf na feddylia neb am eu diwreiddio. Blodeuant yn deg, ond y mae perigl iddynt rannu eglwys, troi cyfeillion yn gaseion, a chlwyfo'r gwirion a'r diniwed. Nid oes raen ar unrhyw ardd tra fyddo'r Cwlwm Coed yno, ac ni ellir disgwyl graen ar unrhyw gymdeithas nac ar unrhyw ardal tra byddo clap a chelwydd heb eu diwreiddio yno.

Yr oeddwn allan yn yr ardd pwy ddydd, a gwelais y bicwnen gyntaf eleni [ni wn a oedd hithau wedi troi'r cloc ymlaen ai peidio]. Beth bynnag am hyn dysgodd un wers bwysig imi ar ddechreu'r tymor. Yr oedd yn chwareu hwnt ac yma yn yr haul fel finnau. Hi ydoedd y gyntaf, ac yr oedd braidd yn rhy gyfeillgar. Credai fod hawl ganddi i gymryd *quiet possession* ohonof. Credwn innau yn wahanol, ond gan mai hi oedd y gyntaf ni wneuthum ond ei hysgwyd ymaith yn dirion. Druan ohonof! Cefais fy nhalu am fy nhirionder a brath ei cholyn. O synfyfyrio ar y digwyddiad a chofio am glap a chelwydd, ni allwn lai na'u cymharu i'r bicwnen, a deuais i'r penderfyniad i adael llonydd i glap a chelwydd yn ogystal ag i bicwnen oni fedrwn eu lladd. Nid yw chwareu â hwy ond yn croeshawu brath y colyn gwenwynig.

* * * *

Wedi achlysur neillduol yn ddiweddar yr oeddwn yn y ty yn pendroni tros hyn ac arall. Galwodd cyfaill, ac yn ddiarwybod rhois ateb amwys i'w ofyniad pendant ef. Ni feddyliais i ddim pellach amdano, ond cyn pen pedair awr ar hugain daeth yr ateb amwys yn ol yn glap bendant, ac er mai myfi oedd wedi'i chreu i raddau, hwyrach nid oeddwn yn adnabod fy eiddo fy hun. Yr oedd wedi teithio mynyddoedd a chymoedd gan osod ardal ar dân.

Cofiais am eiriau rhyw wr doeth, a gwelais pa mor darawiadol oeddynt —"Nid oes draed gan gelwydd," meddai, "ac ni fedr sefyll, ond y mae adenydd ganddo a medr ehedeg ymhell ac agos."

Yr oedd yn dywedyd y gwir ac ni fedrir ei amau.

* * * *

Y mae pobun sydd wedi treulio'i wyliau yng Ngheinewydd yn gyfarwydd a Chnwc y Glap, ac yma ceir y *latest news* ar bopeth o *relativity* at *rywrai* fu bron boddi ger y Gasgen Goch. Nid wyf yn sicr fod Cnwc y Glap ymhob ardal, ond y mae teulu'r glap yn amlwg ddigon.

Mynych y chwarddwn ni ar ein cyn-deidiau gynt a chredwn fod datblygiad wedi gwneuthur gwyrthiau. Y mae mwy o *bolish* ar ein clap a'n celwydd hwyrach, ond nid yw ond *polish* yr *expert*.

Yn ystod cyfnod y Norddman ym Mhrydain yr oedd ganddynt ffordd dda iawn i drin teulu'r glap a'r celwydd. Gosodent y pechadur i eistedd ar y *Cucking-stool*, ac wedi'i rwymo yno, nid oedd ond ei drochi dro ar ol tro yn y dwr llwyd—yn y dwr trwbwl.

Ni wn ai da i gyd yw gollwng yr hen arferion tros gôf, a chredaf fod angen y *Cucking-stool* a'r Ceffyl Pren gymaint heddyw ag erioed o'r blaen. Y mae'r glap a'r celwydd yn aros ond fod ychydig yn ychwaneg o grefft arnynt, dyna'i gyd. Y maent fel y cancr sydd yn ysu'r pren. Y maent yn lladd a difa purdeb bywyd ymhob cylch, ac y mae angen deffroi cydwybod cymdeithas o'i chysgadrwydd rhag i'r clap a'r celwydd rwystro pobl oreu pob bro rhag cynnyg eu gwasanaeth i gymdeithas, ac amddifadu ardal a gwlad o wasanaeth gwerthfawr. Cyhoedded pob llais y felldith uwchben teulu'r glap a'r celwydd—hil y gwiberod o wybod.

"Fe gyfrif Duw'n faswedd holl ffrwyth eu gwefuse."

T. O. W.

BRASLUNIAU O WERSI AR GREFYDD.

[Gan RICHARD A. ARMSTRONG, B.A.]

Gwersi Syml ar Grefydd i Blant o'r Deg i'r Pymtheg oed.

RHAN I.

(Parhad o Rhifyn Mai.)

GWERS VII.

Ail Adroddiad. — Hyspysebu. Ewch yn ol at y fam yn hyspysebu'r baban (Gwers v), gan mai hwn yw'r syniad gore o Dduw yn hyspysu dyn. Daw yn union oddiwrth enaid at enaid, gyda braidd dim cyfarpar, dim ond edrychiad y llygad a chyfarfyddiad y llaw.

Hyspysebu oddiwrth fod îs (ci); oddiwrth ddyn; oddiwrth Fod uwch.

[Meddyliwn trwy weithrediad y Deall; actiwn, gwnawn yn dda (neu yn ddrwg), yn iawn (neu aniawn), drwy weithrediad yr Ewyllys (gallu

moesol)].

Llais *rhybudd*, "Paid," cyn gwneud drwg. Teimlwn nad ni ein hunain sy'n ei lefaru, ond *Rhywun arall*. Galwn y Bod hwnnw wrth yr enw *Duw*.

Parhad.—Tybiwch i'r clerc beidio hidio am y llais ddywedodd "Paid" yn ei enaid, a'i fod yn myn'd a'r sofren; ei fod yn ei wario ar fwyd a dillad. Mae yn gynnes a chysurus, yn teimlo'n ddiogel na cheir ef byth allan. Ymdrecha i beidio ei glywed, ac i'w rwystro i lefaru; ond ni all, gan mai nid ei lais ef *ei hunan* sy'n llefaru, er y gwyr ei fod yn iawn. Llais rhyw Fod arall yw sydd yn bresennol, yn ei weled, ac yn darllen ei galon; llais yr un Bod a ddywedodd "Paid" o'r blaen, ac yn awr yn dweyd "Rhag cywilydd i ti." Galwn y Bod hwnnw yn Dduw; ac er gwaethaf ymdrechion y dyn i'w ddistewi, mae Duw yn parhau i lefaru wrth ei enaid.

Felly mae llais Duw nid yn unig yn ein *rhybuddio* pan fyddwn *ar wneud* drwg, ond y mae'n *ceryddu* pan *wedi* gwneud drwg.

[Da fydd lluosogi'r enghreifftiau gyda'r plant bach, hyd yn oed os bydd rhaid rhannu'r wers yn ddwy. Dylid cael gwelediad clir cyn symud i'r wers nesaf.]

Yn awr tybier, yn lle bod yna demtasiwn i wneud drwg, fod yna gyfleusdra i wneud da :—

Yr ydych yn rhedeg adref o'r ysgol ar hyd ffordd unig, yn newynog iawn ac mewn brys i gael ciniaw. Ond wele eneth fechan yn ymyl y clawdd yn llefain yn druenus, ac yn galw am "Mam." Mae wedi colli ei hunan. Chwi wyddoch ei bod yn byw hanner milldir allan o'ch ffordd chwi. Gallech ei chymeryd gerfydd ei llaw a'i harwain adref, ond collech eich ciniaw wrth hynny. Yr ydych ar benderfynu i beidio ei helpu, pan y mae llais yn swnio yn eich enaid, "Helpia hi." Yr oedd eich holl dueddiad chwi i beidio; ond y llais hwn, nid eich llais chwi oedd; mae yn gwbl groes i lais eich dymuniad chwi. Llais Bod arall yw sydd yn bresennol, ac yn eich gweled. Galwn y Bod hwnnw yn *Dduw*.

Chwi deimlwch fod gan y llais hawl i'ch gorchymyn; yr ydych yn ufuddhau ac yn arwain y plentyn adref.

Eto, dyna chwi'n gwel'd pryfyn (lindys) ar y llwybr, mewn perygl cael sangu arno. Nid ydych am ei gyffwrdd, a phasiwch yn eich blaen. Ond dyna'r llais yn dweyd . . . . . ac yr ydych yn gorfod mynd yn ol, a'i godi a'i osod mewn lle diogel.

Gyda'r plant ieuaf bydd yn ddoeth lluosogi'r eglurebion. Llais Duw yn dweyd, "*Gwnewch* eich gwaith," pan fyddwch am chwarëu; yn dweyd, "Helpiwch eich mam," pan fyddwch am ddarllen, &c.

Annog yw cynghori i wneud rhywbeth sydd dda.

Felly mae llais Duw nid yn unig yn *rhybuddio* pan fyddwn ar wneud drwg, yn *ceryddu* pan wedi gwneud drwg, ond mae hefyd yn *annog* pan fo cyfleusdra i wneud *iawn*.

GWERS VIII.

Ail Adroddiad.—Llais Duw yn *rhybuddio*, cyn gwneud drwg.

Llais Duw yn *ceryddu*, ar ol gwneud drwg.

Llais Duw yn *annog*, cyn gwneud da.

Mae Duw yn hyspysebu i ni drwy y rhai hyn oll, yn gosod meddyliau ynom, mor wirioneddol ag yr wyf fi yn hyspysu fy meddwl i chwi pan yn dweyd "Tyrd" neu "Dos"; neu fel y mae mam yn creu teimlad o ddedwyddwch yn y baban drwy edrychiad.

Parhad.—Tybiwch eich bod yn ufuddhau i'r Llais sy'n llefaru wrth eich enaid, "Gwna" ddwyn y plentyn adref. Mae gennych i fynd yn ol i'r ysgol heb eich ciniaw, a theimlwch yn newynog iawn ac anghysurus. Ac eto mae rhywbeth yn parhau i gael ei ddweyd yn eich enaid sy'n peri i chwi deimlo'n falch eich bod wedi ei wneud. Nid eich llais *chwi* sydd yn llefaru. Llais

rhyw Fod arall yw, sydd yn bresennol, ac a welodd yr ymdrech yn eich calon, llais yr un Bod ag a lefarodd "Gwna" o'r blaen sydd yn awr yn dweyd "Da was." Galwn y Bod wrth yr enw *Duw;* a pha bryd bynnag y bydd dynion, yn ddewr, yn gwneud yn iawn, mae Efe yn llefaru hedd yn y galon.

[Lluosoger yr eglurebion gyda'r plant bach.]

Fel hyn y mae llais Duw nid yn unig yn ein rhybuddio pan f'om ar wneud drwg, ac yn ein ceryddu pan wedi gwneud drwg, ac yn ein hannog pan gaffom gyfleusdra i wneud da, ond hefyd yn *cymeradwyo* pan wedi gwneud da.

Galwer llais Duw yn rhybuddio, yn ceryddu, yn annog, yn cymeradwyo, yn *Gydwybod.* Gelwir yr hyn 'a orchymyna cydwybod ei wneud yn *Dyledswydd* (Iawn). Yr hyn a wahardda cydwybod, fe'i gelwir yn *Bechod* (Aniawn).

[Os ewch i fyw ger ffrwd rhedegog, ar y cyntaf chwi glywch swn y dwr yn wastad; ond wedi cynefino ag ef, ni fyddwch yn ei glywed. Eto, mae'r ffrwd yn parhau i redeg.]

Os cenir cloch i'ch deffro bob bore, ac os codwch yn wastad ar unwaith, chwi a'i clywch yn wastad; ond os gadewch iddo yn ddisylw, yn fuan *ni fyddwch* yn ei glywed. Eto, bydd y gloch yn cael ei ganu bob bore.

Os ufuddhewch yn wastad i lais Duw yn y gydwybod, yn rhybuddio neu yn annog, chwi a'i clywch yn wastad; ond os gadewch ef yn ddisylw, yn raddol aiff i ganu a chwithau *heb ei glywed.* Eto, bydd Duw o hyd yn parhau i lefaru.

Gall y rhai fydd yn ufuddhau i gydwybod gwrdd a llawer o boen a thristwch; eto, bydd ganddynt lais cymeradwyaeth yn llefaru wrthynt, a bydd heddwch yn eu calonau.

Y rhai a anufuddhant yn wastad i gydwybod, ni all fod ganddynt heddwch.

Cydwybod (pedwar llais Duw)—mae yn cyfarch yr Ewyllys (y gynneddf Foesol). Awn rhagom at leisiau eraill Duw (hyspysebion oddiwrth Dduw) wedi eu cyfeirio at y Deall.

(Pw ba'hau.)

YN NES, FY NUW, I TI.

(*Nearer, my God, to Thee.**)

Ffynna llawer iawn o anwybodaeth, bwriadol neu anfwriadol, mewn perthynas i'r emyn adnabyddus uchod. Y mae y Parch. H. W. Stephenson, M.A., wedi cyhoeddi llyfryn bychan destlus, yn rhoddi hanes yr awdures enwog, Sarah Flower Adams (1805—1848), ynghyd a'r amgylchiadau o dan ba rai yr ysgrifennodd yr emyn. Rhoddir yma hanes ei thad, Benjamin Flower (1755—1829). Yr oedd yn wr crefyddol, o argyhoeddiadau dyfnion, ac yn gyfaill mynwesol i'r enwog

* Author of "Nearer, my God, to Thee" (Sarah Flower Adams), by H. W. Stephenson, M.A. The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2. Price, 2/-.

Barch. W. J. Fox, gweinidog y Capel Undodaidd yn South Place, Llundain. Yno yr oedd ef a'i ddwy ferch yn aelodau. Ysgrifennodd Mrs. Adams lawer o farddoniaeth, a diau y buasai ei henw yn anadnabyddus heddyw oni bae am yr emyn hwn. Ymddengys fod ei chwaer, Eliza, yn parotoi llyfr emynau newydd at wasanaeth yr eglwys, a'r digwyddiad hwn roddodd gyfle i Sarah gyfansoddi ei hemyn anfarwol. Am flynyddoedd lawer ar ol ei gyhoeddi yn 1840, ni wyddai neb am dano, ond aelodau yr Eglwys Undodaidd y South Place, ond erbyn hyn nid oes un llyfr emynau yn gyflawn os nad yw "Nearer, my God, to Thee," ynddo. Y mae wedi ei gyfieithu i amryw ieithoedd. "*Nearer, my God, to Thee*" ydoedd y frawddeg olaf ddaeth allan dros enau Mr. McKinley, Arlywydd yr Unol Dalaethau, cyn marw. Canwyd hi yn angladd y Brenin Edward VII, yr hwn oedd yn neilldduol hoff o honi. Ac nid anghofir yn fuan y digwyddiad ofnadwy pan darawodd yr agerlong anffodus y *Titanic* y rhew ar For y Werydd. Pan suddai y llong dda gyda'r rhan fwyaf o'r teithwyr a'r dwylaw ar y bwrdd. Dywed un o'r rhai achubwyd mai y peth diweddaf glywodd ef oedd clywed y *band* yn chwareu, "*Nearer, my God, to Thee.*" Bu farw'r awdures Awst 14, 1848, dwy flynedd wedi marwolaeth ei chwaer, a chladdwyd hi yn Harlow, Essex, lle'r roedd ei rhieni a'i chwaer wedi eu cladddu yn flaenorol

MARWGOFION.

MAI 16, yn 71 mlwydd oed, Elizabeth, gweddw y diweddar frawd John Bowen, Rose Cottage, Trebanos. Blaenodd ei hanwyl gydmar hi tuag un-flynedd-ar-ddeg yn ol. Fel y digwydd marwolaeth y genir llawer un arall. Mae dyn, pan fo yn ei bresenol, yn galw, nid y dyfodol i'w feddwl, ac yn dychmygu sut y bydd hi yno, ond yn dwyn ar gynfas ei gof ei holl orffennol hefyd. *Credu* ry'm ni am y dyfodol; *gwybod* yr y'm am y gorffennol. Daw y dyddiau gynt i'n cof pan linellwn gofion ei hen fam annwyl. Bu hi drwy dywydd amryw; curodd tywydd teulu lluosog arni yn enbyd Canfuom i ddiwydrwydd fod yn un o'i rhinweddau amlycaf. Llafuriodd hyd y gallodd i godi'r plant yn y llwybrau hynny na fydd neb yn edifar o rodio hyd-ddynt. Y Sadwrn dilynol y cydhebryngwyd ei harch a'i gynnwys i 'dawel erw' Gellionen. Gwasanaethodd ei gweinidog, y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd gan Mr. Lewis Morgan, Clydach.

MAI 20, yn 70 oed, bu farw Jenkin Evans, Pwllglas, plwyf Llanbedr. Yr oedd ei iechyd wedi dechreu gwanhau er's blynyddoedd; ond parhaodd i fyned oddiamgylch hyd ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, pryd y cyfyngwyd ef, yn gyntaf, i'w dŷ; yna i'w wely; ac yr oedd yn amlwg, er's peth amser, nad oedd adferiad i fod iddo. Yr oedd yn ddisgynnydd o'r enwog Ddr. Davies, Blaenbydernyn; yr oedd, felly, yn aelod o dylwyth sydd eto'n lluosog yng nghymydogaethau Pencarreg a Llanbedr; y rhan fwyaf o honynt, fel yntau, yn Undodiaid ffyddlon. Ymaelododd yng Nghapel y Groes yn gymharol ieuanc, a bu'n ffyddlon hyd y diwedd —fel aelod, fel diacon am yn agos i

ddeng mlynedd ar hugain, fel athraw'r Ysgol Sul, a hefyd fel dechreuwr canu. Deallai elfennau cerddoriaeth yn dda, ac hoff iawn ydoedd o ganu; a bu'n ddefnyddiol iawn fel dechreuwr canu mewn angladdau, yn ychwanegol at ddechreu canu yn y capel. Fe welir ei eisieu'n fawr, oblegid nid oedd ei le byth yn wag; a pharod ydoedd i wneud a allai. Gadawodd mewn hiraeth dwys ar ei ol briod, pedwar o blant, amryw wyrion, tri brawd, a lluaws o berthynasau agos. Dydd Iau canlynol daeth torf luosog ynghyd i hebrwng ei weddillion i ymyl eiddo ei fab ym mynwent Capelygroes. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. L. Williams; Islan Jones, M.A.; a T. O. Williams, B.A.

MAI 24, yn 71 mlwydd oed, Mrs. Eleanor Richards, gweddw y diweddar Mr. Thomas Richards, Tangraig, Pontshan. Nid oedd ond rhyw saith wythnos er pan gladdwyd ei phriod, a phan gafodd hithau ei gollwng yn rhydd o'i chystudd hir a phoenus dywedwn mai da oedd. Gadawodd ar ei hol un ferch, yr hon gartrefai gartref gyda'i rhieni, a dau fab, Evan Richards, Half Moon Hotel, Llandyssul, a John Richards, Abertawe. Claddwyd ei rhan farwol ym mynwent Pantdefaid, y dydd Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd a phregethwyd gan y Gweinidog, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MAI 26, yn 27 oed, Mary, priod hoff Benjamin Ivor Davies, Dyffryn Road, Alltwen. Nid ymadawiad un wedi cyrhaedd oed yr addewid sydd yma, O, na, ond gwraig ieuangc dim ond megis newydd gychwyn ar rodfa oes. Dyma'r alwad yn dod, heb megis ond byr rybudd. Pam y dygwyd hi oddiar ei phriod a'i phedwar bach? Dychmygaf glywed y babanbedwarawd yn canu—

"Aeth mam ym mlaen i'r nef,
I gael ei gwmni ef."

a'r tad hiraethus yn arwain a deigryn ar ei rudd, a diflana'r canu gyda'r geiriau—

"Awn ninnau cyn bo hir,
I'w gwel'd ar Salem dir."

Er colli o'r tad ieuangc ei gymhares gu, mae ganddo eto gwmni'r pedwar bach. Cymerwch galon, frawd, a gwybyddwch y rhaid byw i'r byw, a byw er mwyn y marw. Claddwyd wrth yr Alltwen. Gweinyddwyd gan y Parch. Llewelyn Boyer, Danygraig, a diweddwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. D. G. Rees.

Y MAE arwyddion galar wedi bod yn amlwg iawn yn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, yn ystod y misoedd diweddaf trwy farwolaeth nifer o'r aelodau, a blin iawn yw y gwaith o ychwanegu enw arall at y rhestr. Sul, Mai 28, mewn Nursing Home yn Llundain, bu farw Mr. Walter P. Llewellyn, yn 39 oed, ail fab Mrs. Llewellyn, Bwllfa House, Cwmdar, Aberdar. Nid ydoedd yn gryf o ran iechyd, a rhyw dri mis yn ol tarawyd ef gan 'pneumonia,' a thybiwyd ei fod ar wellhad er yn gwybod yr effeithiwyd ar ei galon gan y dolur, ac ar ddydd Mercher y 24ain, atglafychodd, a bu farw y Sul canlynol yng ngwydd ei frawd Syr D. R. Llewellyn. Bu am 12 mlynedd yn *Cashier* yng ngwasanaeth y London and Provincial Bank, yn Llundain, ond gorfu iddo adael hyn o waith oherwydd afiechyd. Yr oedd gan bawb a'i hadwaenai barch neilltuol iddo ac yn hoff iawn o honno. Tra yn Aberdar yr oedd yn ffyddlon yn y gwasanaeth, ac yn teimlo diddordeb yn yr achos. Bu yn nychu am fisoedd lawer ond ni freuddwydiwyd fod y diwedd mor agos. Ergyd tost i'r teulu ydoedd ei golli, ac yn enwedig i'w fam, ac estynnir iddynt y cydymdeimlad llwyraf gan yr eglwys a llu mawr o gyfeillion. Bu yr angladd dydd Mercher, Mai 31, a chladdwyd yn y fynwent gyhoeddus. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. R. Dennis.

MEHEFIN 2, yn 60 mlwydd oed, David Davies, Llygadenwyn, Llanybyther. Yr oedd ei iechyd wedi dechreu gwaelu er's rhai misoedd, ond ni fu yn gyfyngedig i'w wely ond am bythefnos. Mab ydoedd i'r diweddar Mrs. Jane Pugh, Parc Mawr, Ciliau Aeron, yr hon oedd yn ferch i'r diweddar David a Rachel Davies, Cornicill, Llanwnen. Yn Cornicill y cafodd ei fagu, ac yno y bu yn cartrefu hyd iddo briodi. Er na chafodd lawer o fanteision addysg, yr oedd yn ysgolhaig da, ac yr oedd ei lawysgrifen yn rhagori ar y cyffredin. Cafodd ei benodi pan yn dra ieuanc yn gasglwr trethi dros blwyf Llanwnen, a daliodd y swydd hon hyd iddo symud o'r lle. Pan yn ieuanc yr oedd yn ffyddlon gyda'r addoliad a'r Ysgol Sul yn Eglwys Llanwnen. Meddai ar gof da, ac yr oedd yn un o'r rhai mwyaf gwybodus a berthynai i'r Ysgol Sul hono. Yn ychwanegol at fod yn amaethwr yr oedd hefyd yn masnachu mewn anifeiliaid. Collodd un o'i feibion yn y rhyfel. Claddwyd yn Aberduar. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Mr. Jenkins, Ficer, Llanybyther, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams, Alltyblacca. Gadawodd weddw, dau fab, dwy ferch, dau frawd, a modryb, ynghyd ag amryw berthynasau eraill i alaru ar ei ol.

MEHEFIN 9, yn 65 mlwydd oed, Thomas Davies, Maesllwyd, Llanwenog. Cafodd gystudd maith a phoenus. Bu yn Ysbytty Aberystwyth am ychydig amser, ond yn ol y daeth heb dderbyn dim lleshad. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth, a bu yn weithiwr diwyd a didwyll. Ymdrechodd yn fawr dros ei deulu, a chafodd yr hyfrydwch o weled y rhan fwyaf o'i blant mewn amgylchiadau da, a'r lleill ar y ffordd i gyrhaedd safleoedd uchel. Mae dwy ferch iddo yn athrawesau mewn ysgolion. Bu un o'i feibion, sef Mr. David Thomas Davies, yr hwn sydd yn awr yng Ngholeg y Brif Ysgol, Aberystwyth, yn y fyddin. Daeth ei alluoedd yn amlwg yno, a chafodd ddyrchafiadau buan, hyd nes iddo gyrhaedd y safle o fod yn Gadweinydd. Yr oedd ysbryd siriol a theimlad brawdol a chyfeillgar yn nodweddion amlwg yn yr ymadawedig, a pharent ei fod yn barchus gan ei gyd-weithwyr, a chan bawb o'i gydnabod. Yr oedd yn ddiacon yn eglwys y Cwm, ac wedi dal y swydd am lawer o flynyddau. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llanwenog. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, a chymerwyd rhan gan y Parch. E. O. Jenkins. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Roberts, Curad. Gadawodd briod, pedwar mab, pump merch, ac wyrion, ynghyd a phedwar brawd ac un chwaer i alaru ar ei ol.

MANION AC HANESION.

ALLTYPLACA.—Cynhaliodd Ysgolion Sul Alltyplaca, Brondeifi, Caeronen, a Chapelygroes, eu cymanfa flynyddol yn Alltyplaca, dydd Mercher, Mai 24. Adroddodd amryw o blant benodau o'r Ysgrythyr. Rhoddwyd rhan o gyfarfodydd y boreu a'r prynhawn i'r plant, a holwyd hwy ar y Maes Llafur gan y Parch. Lewis Williams. Adroddodd Alltyplaca ran o Marc 9, a Brondeifi y rhan arall o honi, a holwyd hwy gan y Parch. T. O. Williams, B.A. Credwn i'r ysgolion fyned drwy eu gwaith yn rhagorol, a da oedd genym weled cynifer o rai ieuainc yn perthyn i bob un o'r ysgolion. Yr oedd yn bresenol y Parchn. T. A. Thomas, E. O Jenkins, a J. Islan Jones, B.A., Bolton. Cyfeiliwyd y boreu a'r prynhawn gan Mrs. Dr. Jones, Y Bryn, Llanybyther. Cynhaliwyd Rehearsal yn yr hwyr ar gyfer y Gymanfa Ganu, ac arweiniwyd gan

Mr. Thomas Davies, Y Felin, Cwrtnewydd, a Mr. W. Hefin Williams, Llanbedr. Gwasanaethwyd wrth yr *Organ* gan Miss Jenkins, Blaenwaun Uchaf.

CAPEL Y BRYN.——Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion yn y lle hwn Mai 26, pryd y daeth yr ysgolion canlynol ynghyd—Capel y Bryn, Cribyn, Rhydygwin, Ciliau a Cwm. Adroddodd Capel y Bryn Marc 13, a holwyd hwy gan y Parch. J. Islan Jones, B.A., Bolton; Cribyn rhan o Marc 14, a holwyd hwy gan y Parch. D. Evans; Ciliau rhan o Marc 15, a holwyd hwy gan y Parch. Lewis Williams; Cwm Marc 16, a holwyd hwy gan y Parch. D. Evans. Yr oedd y diweddar Barch. J. Davies, Tancoed, wedi ei benodi i holi ysgol y Cwm. Oddiar sefydliad y gymanfa hon ni fu Mr. Davies yn absenol o honi ond unwaith, ac ni fyddai y pryd hwnw oni bae fod galwad am ei wasanaeth mewn lle arall. Yr oedd y Parchn. E. O. Jenkins; T. O. Williams, B.A.; ac E. Glyn Edwards yn bresenol. Yr oedd yr ysgolion mor lluosog ag arferol; yr oedd yr adroddiadau a'r atebion yn foddhaol iawn. Wrth weled cynulliadau mor fawr cawsom ein gwneud i deimlo yn obeithiol yn mherthynas i'n Hysgolion Sul yn y dyfodol. Cyfeiliwyd gan Miss Pugh, Bryngranod. Cynhaliwyd cyfarfod yn yr hwyr i ymarfer canu ar gyfer y gymanfa flynyddol. Cyflawnwyd y rhan arweiniol yn y cyfarfod hwn gan y Parch. E. Glyn Edwards, ac arweiniwyd gan Mr. Thomas Davies, Y Felin, Cwrtnewydd. Cyfeiliwyd gan Miss Jenkins, Blaenwaun Uchaf.

Y GRAIG 'A GELLIONEN.—Ni chawd erioed yn hanes yr eglwys uchod well diwrnod na'r Llungwyn eleni i hyrwyddo ymaith fwynianau'r wledd dê ar y mynydd. Ymdyrrodd llu mawr i'r wyl, a diweddwyd un o'r cyfarfyddiadau hyfrytaf gafwyd. Hyderwn y ca'r Ysgol Sul yn y lle ei haeddiant wedi yr êl heibio yr awr bleser.——Llawenydd yw gennym i'r Gymanfa Undebol yng Nghaerfyrddin droi allan yn bobpeth ellid ei ddymuno. Ar wahan i'r wledd o gân caed profiad newydd wrth dramwyo 'Gwlad Myrddin'—gwlad y praffgoed a'r gadwen aur, yr uthr lethroedd, a'r gloew neint. Yn y swyn gâllem blygu mewn edmygedd. Yfasom yn helaeth o gwpan rhyfeddod. Cydsyniwn i alw'n ol y dydd a'i waith.

CAPELYGROES.—Prydnawn dydd Mawrth, y 6fed o Fehefin, rhoddwyd gwledd dê a bara brith (yn cynnwys bron pob math o felusion) i blant Ysgol Sul a chynnulleidfa'r lle uchod gan y Parch. E. E. Jenkins, Walmsley, a Mr. a Mrs. Jenkins, Cider Mill Farm, ger Newport, yn cael eu cynhorthwyo gan Mr. a Miss Jenkins, Blaenwaun Ganol. Gwnaethant ddarpariadau helaeth anghyffredin ar gyfer yr amgylchiad, a daeth nifer anarferol o luosog ynghyd i gyfranogi o honynt. Yn ystod y prydnawn, hefyd, rhannwyd rhai cannoedd o *oranges* rhwng y plant gan roddwyr y tê. Yn yr hwyr, cawd cyfarfod adloniadol llwyddiannus iawn, ac awd trwy raglen hir o adrodd a chanu a dadleu, gydag un ddrama gan y plant. Yn ystod y cyfarfod diolchodd y gweinidog yn wresog i'r rhoddwyr caredig am eu haelioni, ac ategwyd gan amryw eraill mewn anerchiadau barddonol—ar lafar ac ar gân. Terfynwyd y cyfarfod trwy ganu 'Hen Wlad fy Nhadau,' y Parch. E. E. Jenkins yn datganu'r unawd. Ac aeth pawb tua thre' wedi eu llwyr fodloni. Da gennym fod Mr. Jenkins, fel cynweinidog y gynnulleidfa, yn parhau i deimlo diddordeb yn yr achos, er fod ei linynnau er's blynyddoedd wedi syrthio yngwlad y Sais. Da gennym, hefyd, fod Mrs. Jenkins, er yn byw yn Mynwy, bellach, er's yn agos i ddeng mlynedd, yn parhau mor frwd ei serch at Capelygroes ag erioed. Pob llwydd a'u dilyno.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(Dec. 31st, 1921)* ..	**375,117,092**

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1,600 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2